Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Heddlu • Police DYFED-POWYS

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynhadledd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu/ MS Teams** |
| **Dyddiad:** | **8 Medi 2025** |
| **Amser:** | **9.30y.b. - 11.30y.b.** |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | • Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn<br>• Y Prif Gwnstabl Dros Dro, Ifan Charles<br>• Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Carys Morgans<br>• Prif Swyddog Cyllid Dros Dro Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Nicola Davies<br>• Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, Linda Williams |
| **Hefyd yn bresennol:** | • Swyddog Staff, yr Arolygydd Gemma Starkey (GS)<br>• Cymorth Gweithredol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Sophie Morgan (SM)<br>• Roedd Pennaeth Cyflenwi Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Steve Cadenne (SCa) yn bresennol ar gyfer eitem 3a ar yr agenda - Pobl a Datblygu Sefydliadol<br>• Roedd Pennaeth Talent, Steve Cockwell (SCo) yn bresennol ar gyfer eitem agenda 3a ar yr agenda - Pobl a Datblygu Sefydliadol<br>• Roedd y Dadansoddwr Perfformiad, Ricky Turner (RT) yn bresennol ar gyfer eitem 3a ar yr agenda - Pobl a Datblygu Sefydliadol<br>• Roedd yr Arbenigwr Perfformiad a Dadansoddeg Pobl, Louise Davis (LD) yn bresennol ar gyfer eitem 3a ar yr agenda - Pobl a Datblygu Sefydliadol<br>• Roedd Pennaeth yr Uned Gwella Gwasanaethau, yr Uwch-arolygydd Dros Dro Mark McSweeney (MMc) yn bresennol ar gyfer eitem 3b ar yr agenda - Paratoi ar gyfer Arolygiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ac eitem 3c ar yr agenda - Meysydd i'w gwella ym meysydd adnoddau dynol a fetio yn unol ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF<br>• Arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi, roedd yr Arolygydd Richard Janas (RJ) yn bresennol ar gyfer eitem 3c ar yr agenda, Meysydd i'w gwella ym meysydd adnoddau dynol a fetio yn unol ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF<br>• Roedd yr Uwch Swyddog Cyfrifol - Tîm Adolygu'r Heddlu, Gareth Scanlon (GS) yn bresennol ar gyfer eitem 3b ar yr agenda - Cyflwyniad ar baratoi ar gyfer Arolygiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ac eitem 3c ar |

| | |
|---|---|
| | yr agenda - Meysydd i'w gwella ym meysydd adnoddau dynol a fetio yn unol ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ac eitem 5c ar yr agenda - Y newyddion diweddaraf am fodel gweithredu'r heddlu<br>• Roedd yr Arweinydd Atal, yr Uwch-arolygydd Chris Neve (CN) yn bresennol ar gyfer eitem 5h ar yr agenda - Ymgysylltu â'r gymuned |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) bawb i'r cyfarfod. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

## 2. Diweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | Diweddariad |
|---|---|---|
| **PB 081** | Diweddariad pellach ar drais yn erbyn menywod a merched i'w ddarparu i'r Bwrdd Plismona ym mis Ionawr 2026. | **Ar y gweill**<br><br>Ychwanegwyd at flaengynllun y Bwrdd Plismona |
| **PB 082** | Diweddariad ar absenoldebau salwch i'w ddarparu yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Medi. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Ar yr agenda |
| **PB 083** | Yr heddlu i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut mae canfyddiadau'r cyfarfodydd "Achos Pryder" yn bwydo i gyfarfodydd atal tactegol a strategol a sut mae hyn yn pennu tasgau i'r timau plismona ac atal bro lleol dreulio amser yn yr ardaloedd cywir. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Gwybodaeth bellach wedi'i darparu gan Y Prif Arolygydd Dominic Jones |
| **PB 084** | Yr heddlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r polisi ynghylch canabis a ragnodir yn gyfreithlon yn cael ei ledaenu i swyddogion a staff. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Darperir memo yr heddlu |
| **PB 085** | Bydd y CHTh yn trafod ag Uned Gyswllt yr Heddlu a Chadeirydd Plismona yng Nghymru y posibilrwydd o anfon llythyr at y Gweinidog Plismona ynghylch ymweliadau â Chymru. | **Ar y gweill** |
| **PB 086** | Yr heddlu i gadarnhau nifer y trosglwyddeion sy'n ymuno â'r heddlu ym mis Tachwedd. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>24 o drosglwyddeion yn ymuno â'r heddlu ym mis Tachwedd 2025 |
| **PB 087** | Papur i'w ddarparu i'r Bwrdd Plismona ynghylch y gyfradd gadael swyddi o fewn yr heddlu. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Darperir memo yr heddlu |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 088** | Y Prif Gwnstabl Dros Dro i gysylltu â'r Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro ynghylch eglurder ar yr amserlen o amgylch gweithredu Microsoft Lists i gynorthwyo Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Diweddariad wedi'i ddarparu yn y papur Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data |

## 3. Pwnc ffocws:

### a) Pobl a Datblygu Sefydliadol

Derbyniodd y Bwrdd gyflwyniad ar fetrigau absenoldeb oherwydd salwch, a oedd wedi'i gyflwyno'n flaenorol i'r Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg. Mae'r Uned Gwella Gwasanaethau yn datblygu dangosfwrdd perfformiad ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch a thrafodwyd amserlen ar gyfer cwblhau'r dangosfwrdd.

Rhoddodd y cyflwyniad wybodaeth am absenoldeb oherwydd salwch, gan gynnwys nifer y dyddiau dyletswydd a gollwyd oherwydd salwch, lefelau salwch ym mhob uned reoli sylfaenol ac adrannau o fewn yr heddlu, a nifer y gweithlu ar absenoldeb salwch wedi'i rannu'n salwch tymor byr, canolig a hirdymor.

Rhoddodd Pennaeth Talent, Steve Cockwell, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ynghylch y gyfradd gadael swyddi o fewn yr heddlu. Roedd y gyfradd gadael o fewn yr heddlu yn 2024/25 yn 5.9% sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac wedi gostwng o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol sef 2023/24 (6.6%) a 2022/23 (6.1%).

Mae data swyddogion heddlu sy'n gadael ar gyfer 2024/25 yn nodi mai ymddiswyddiadau ac ymddeoliadau yw'r ddau brif reswm dros adael.
Mae rhesymau dros adael yn cael eu cofnodi drwy'r hyn a gofnodir ar y ffurflen derfynu a'i gyflwyno i draciwr data'r gweithlu cenedlaethol.
Mae cyfweliadau a chyfweliadau Dweud ac Aros a gynhelir o fewn yr heddlu yn darparu lefel bellach o fanylder ac yn caniatáu dewis rhesymau amryfal.
Cynhaliwyd hanner cant o gyfweliadau ymadael ar gyfer 2024/25 ac 20 o gyfweliadau Dweud ac Aros. O'r 20 cyfweliad Dweud ac Aros, arhosodd 13 swyddog o fewn y sefydliad.
Yn ogystal â'r data a adroddwyd, lle mae themâu'n dod i'r amlwg o adran neu uned reoli sylfaenol, bydd y data meintiol yn cael ei gasglu, ei wneud yn ddi-enw a'i rannu â'r timau uwch-reolwyr perthnasol i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sylfaenol. Mae 24 o'r 37 cyfweliad Dweud ac Aros a gynhaliwyd ers 2024 wedi ymwneud â swyddogion sydd â llai na phedair blynedd o wasanaeth.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i rannu'r polisi ymddeol hyblyg â'r CHTh.**

### b) Cyflwyniad ar baratoi ar gyfer arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi

Cyflwynodd yr Uwch-arolygydd McSweeney i'r bwrdd ymagwedd yr heddlu o ran arolygiad effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu sydd ar ddod gan Arolygiaeth Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi a bod y cyfnod casglu tystiolaeth ar gyfer arolygiad 2026 wedi dechrau.

Mae cynnwys yr hyn y canolbwyntir arno o fewn cyfnod olaf y gweithgaredd arolygu yn cael ei bennu gan yr Arweinydd Cyswllt Heddlu ac arweinwyr cwestiynau arolygiad effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu sy'n cwblhau adolygiad 'dadansoddiad bylchau' o'r holl dystiolaeth a gasglwyd hyd yma.

Ar 18 Awst mae'r prif swyddogion wedi cytuno ar brif themâu / cwestiynau yr heddlu ar gyfer creu cynllun i nodi tystiolaeth sy'n dangos yn rhagweithiol y cynnydd a wnaed ers arolygiad effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu 2023-2025. Bydd y cynlluniau'n syml ac yn gofyn am arweinwyr i fapio cynnydd yn erbyn nodweddion 'da' o arolygiad effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu ar gyfer eu meysydd thematig. Bydd cynlluniau'n ystyried sut y gellir dangos y dystiolaeth orau e.e. drwy gyfarfodydd ar-lein, gwahoddiad personol, darparu data ategol, dogfennau ac ati.

Mae'r heddlu eisiau bod mewn sefyllfa lle bydd y cyfnod gwaith maes olaf ym mis Mehefin 2026 yn fwy o gyfnod 'gwirio a phrofi' i dimau arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

Trafododd y bwrdd amserlen y digwyddiadau a oedd yn digwydd o fewn y cylch cynllunio strategol a sicrwydd yn ystod y flwyddyn a'r ystyriaeth i'w rhoi i bresenoldeb mewn digwyddiadau a/neu ddogfennaeth ategol.

**Camau gweithredu: - Ystyriaeth i'w rhoi i Arweinydd Cyswllt Heddlu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi i fynychu'r seminar ariannol a drefnwyd ar gyfer Tachwedd 2025.**

Dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro y cynhelir cyfarfod estynedig o Grŵp Prif Swyddogion unwaith y mis lle trafodir yn fanwl cynnydd a diweddariadau arolygiad effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF. Mae cynnydd hefyd yn cael ei fonitro trwy gyfarfod wythnosol y Prif Gwnstabl Cynorthwyol.

**Camau gweithredu: - Cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i fynychu cyfarfod estynedig misol y Grŵp Prif Swyddogion i drafod arolygiad effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF sydd ar ddod.**

**c) Meysydd i'w gwella ym meysydd adnoddau dynol a fetio yn unol ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF**

Rhoddodd yr Arolygydd Janas yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Plismona ynghylch y cynnydd cyfredol o ran y meysydd i'w gwella a ddyrannodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi i'r heddlu o arolygiadau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu ac arolygiad thematig blaenorol. Ar hyn o bryd mae 19 o feysydd i'w gwella, mae un maes i'w wella sy'n ymwneud â chyflawni canlyniadau priodol i ddioddefwyr wedi'i gymeradwyo'n fewnol yn ddiweddar a'i wirio gan yr Arweinydd Cyswllt Heddlu. Mae tri maes i'w wella o arolygiadau thematig ac 16 o arolygiadau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu. Yna canolbwyntiodd y diweddariad ar y pwnc ffocws penodol, fel y gofynnwyd, ar feysydd i'w gwella ym meysydd adnoddau dynol a fetio.

Trafodwyd pryderon a godwyd ynghylch capasiti staffio a'r ôl-groniad o achosion o fewn yr Adran Safonau Proffesiynol gan y bwrdd. Cyfeiriodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hefyd at y cynnydd yn y gohebiaeth a ddaeth i law swyddfa'r comisiynydd ynghylch ymdrin â chwynion mewn modd amserol. Rhoddodd y Prif Gwnstabl Dros Dro yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo drwy'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd ar gyfer yr Adran Safonau Proffesiynol.

## 4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

### a) Yn dilyn gohebiaeth a ddaeth i law Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, beth yw'r ddarpariaeth lefel gwasanaeth bresennol yng Nghrucywel?

Dywedodd yr heddlu nad oes unrhyw newid wedi bod i lefel y plismona yng Nghrucywel ac na fydd symud o orsaf heddlu Crucywel yn cael unrhyw effaith ar lefel y plismona yn yr ardal. Mae gwerthu'r orsaf heddlu wedi golygu bod plismona gweithredol wedi symud i gyd-rannu â'r gwasanaeth tân.

Mae Crucywel yn rhan o adran Aberhonddu, lle mae gorsaf â staff 24 awr y mae swyddogion ymateb yr heddlu yn gweithio ohoni. Mae swyddogion yn derbyn tasgau a blaenoriaethau patrôl o'r safle hwn a byddai hyn yn cynnwys Crucywel. Mae Crucywel wedi'i nodi fel gorsaf tîm plismona ac atal bro. Mae gan yr heddlu adnoddau pwrpasol ar gyfer y dref ac mae'n ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned. Mae'r tîm plismona ac atal bro yn gweithio rhwng 8y.b. a 10y.h.

Fel gwasanaeth, mae'n rhaid i'r heddlu yn aml ddyrannu eu hadnoddau a'u swyddogion i ble mae'r galw. Mae hyn yn aml yn golygu bod rhai cymunedau'n teimlo nad ydynt yn gweld yr heddlu mor aml ag y byddent yn hoffi.

Mae'r heddlu wedi adolygu nifer y troseddau a gofnodwyd yng Nghrucywel. Mae 45 o droseddau wedi'u cofnodi yn adran Crucywel a Chwmdu ers dechrau 2025, ac o'r digwyddiadau hynny roedd 12 yn gysylltiedig â throseddau domestig. Mae'r heddlu'n adrodd am gynnydd bach yn nifer y digwyddiadau a gofnodwyd ym mis Mai/Mehefin. O'r troseddau a gofnodwyd, digwyddodd 15 ar ôl 10y.h. Mae saith yn parhau i fod yn destun ymchwiliad.

Fel gwasanaeth yr heddlu, mae'r heddlu yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod pob preswylydd yn gallu byw heb ofn. Mae'r tîm plismona ac atal bro yn adolygu'r tueddiadau troseddu i asesu unrhyw fesurau atal troseddu a allai gynorthwyo yn hyn o beth.

Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ym mis Tachwedd 2024, gwnaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu y penderfyniad i gydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a rhentu lleoedd eiddo yng Nghrucywel, y Gelli Gandryll, Llanfyllin, Arberth, Llandeilo, a Llanymddyfri ar ôl ystyried yr adroddiad yn manylu ar y cyfleoedd ystad strategol gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Roedd y Grŵp Ystadau Strategol a'r Grŵp Prif Swyddogion wedi gwneud penderfyniadau allweddol ynghylch y gofynion gweithredol yn y dyfodol o ran yr ystad ehangach. Arweiniodd hyn at asesu nifer o eiddo fel rhai nad oeddent yn weithredol addas i'r diben ar yr amod bod opsiynau eraill ar gael yn yr ardal i fodloni gofynion timau plismona ac atal bro a gwasanaeth ymateb yr heddlu yn lleol. Roedd yr heddlu wedi asesu lefelau staffio ei dimau plismona ac atal bro/swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu lleol ym mhob lleoliad a nodwyd, a thrwy gyfathrebu'n agos ag uwch-arolygwyr pob tiriogaeth heddlu, ystyriwyd bod safleoedd Crucywel, Y Gelli Gandryll, Llanfyllin, Arberth, Llandeilo, a Llanymddyfri yn addas i fanteisio ar gyfle i ddarparu presenoldeb cynaliadwy ym mhob tref trwy gydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae hyn wedi caniatáu i bob gorsaf gael ei rhyddhau i'w gwerthu ar y farchnad agored ac mae hefyd yn darparu canolfan arall ym mhob tref i ganiatáu i staff gael mynediad at gyfleusterau i weithio wrth ddesg a defnyddio unrhyw gyfleusterau sydd eu hangen yn ystod y diwrnod gwaith.

### b) Yn dilyn dyfarniad diweddar gan yr Uchel Lys ynghylch swyddogion heddlu yn mynychu digwyddiadau Pride. Sut mae'r Prif Gwnstabl yn cefnogi cymunedau LHDT+ mewnol ac allanol?

Dywedodd yr heddlu, yn dilyn ychydig fisoedd anodd o achosion cyfreithiol yn effeithio ar blismona LHDTC+, a'r dehongliadau heriol o'r dyfarniad cyntaf gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac amrywiol gyfryngau, fod yr heddlu'n cydnabod bod eu cydweithwyr, gwirfoddolwyr a chymunedau traws, anneuaidd, ac amrywiol o ran rhywedd (a'r gymuned LHDTC+ ehangach) wedi cael eu heffeithio nid yn unig gan ddyfarniad diweddar yr Uchel Lys ar bresenoldeb yr heddlu yn Pride ond gan ei oblygiadau ehangach.

Tynnwyd sylw at y ffaith, yn ystod y misoedd diwethaf, fod postiadau/sylwadau/dehongliadau eang wedi bod ar gyfryngau cymdeithasol, a chwestiynau ehangach am blismona ac actifiaeth/didueddrwydd. Er bod yr heddlu'n ystyried ffyrdd ystyrlon a diduedd o ymgysylltu â'u cymunedau, mae

ystyriaethau ehangach i wella ymgysylltu a fydd yn cael eu trafod yn y Bwrdd Plismona, yn ogystal â manteision yr ap ymgysylltu newydd sydd ar ddod.

Mae'r heddlu hefyd yn cydnabod achosion cyfreithiol cysylltiedig eraill gan fod cefnogaeth wedi bod yn parhau ers dyfarniad blaenorol y Goruchaf Lys a heriau cenedlaethol/lleol eraill yn ystod 2025.

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys Rwydwaith Cymorth LHDT+ gweithredol. Cadeirir hwn gan y Rhingyll Lynsey Scott. Yn ddiweddar, penododd y rhwydwaith uwch gynghreiriad (Y Prif Arolygydd Jenna Jones) i sicrhau bod llais y rhwydwaith yn cael ei hyrwyddo ledled y sefydliad. Mae'r rhwydwaith yn darparu cefnogaeth i weithwyr LHDT+ yn y gweithle ac mae hefyd yno i nodi heriau a chyfleoedd sefydliadol i staff a swyddogion LHDT+. Mae'r rhwydwaith hefyd yn gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r sefydliad drwy graffu ar ei bolisïau a'i brosesau a allai effeithio ar gymunedau ac unigolion LHDT+. Mae cynrychiolydd o'r rhwydwaith yn mynychu'r Grŵp Cofleidio Cynrychiolaeth Amrywiol ac mae'r fhwydwaith yn cael ei gynrychioli'n dda yn ystod y cyfarfodydd hyn, ac yn aml, yn nodi'r angen am gymorth llesiant ychwanegol i'r rhwydwaith. Mae'r SCHTh yn mynychu'r cyfarfod hwn hefyd a byddant wedi gweld o brofiad uniongyrchol bod gan bob rhwydwaith gyfle i rannu heriau a chyfleoedd rhwydwaith/aelodau. Mae cefnogaeth ddiweddar yn ystod achosion cyfreithiol diweddar wedi cynnwys cysylltu â'r uned iechyd galwedigaethol i sicrhau bod aelodau'n ymwybodol o gyfleoedd llesiant sydd ar gael iddynt. Sicrhaodd yr uned iechyd galwedigaethol fod gwasanaethau fel VIVUP wedi'u paratoi'n addas i gefnogi swyddogion a staff traws, anneuaidd, ac amrywiol o ran rhywedd yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys.

Enwebwyd y Rhingyll Lynsey Scott am Wobr yr Heddlu (gweithio tuag at amrywiaeth yn y gweithle) eleni am ei hymroddiad i gefnogi'r rhwydwaith a'r gymuned LHDTC+ ehangach.

Roedd Heddlu Dyfed-Powys yn falch o gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol Rhwydwaith LHDT+ Cymru gyfan yn gynharach eleni: Croesawodd y tîm dros 80 o gydweithwyr o Heddlu De Cymru, Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Gwent am ddiwrnod o ddathlu, cysylltu a dysgu. Roedd agenda'r diwrnod yn llawn gwobrau, cydnabyddiaeth a chyfres o sgyrsiau gan siaradwyr gwadd gan gynnwys yr hanesydd Norena Shopland, yr Arolygydd Allen Davis o Heddlu Metropolitanaidd, Dr Helen Williams o Breaking Binaries a Dr Emily Garside. Yn ystod y diwrnod myfyriwyd ar y dirwedd gyfreithiol, a dewiswyd stondinau (Police Mutual, Unsain, Rhwydwaith LHDT+, Gweithredu Cadarnhaol, SCHTh, ac ati) a phynciau (e.e. hanes, polisïau a gwerthoedd, defnyddio cyffuriau ar gyfer rhyw (Chemsex), ac ati) yn ofalus i sicrhau bod dysgu a chefnogaeth barhaus ar gael.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i hyrwyddo gweithredu cadarnhaol. Mae gwybodaeth i'w gweld drwy holl dudalennau gyrfaoedd y wefan (recriwtio), ac mae mwy o ffocws ar gamau cadarnhaol o fewn cadw a datblygu staff.

Mae canllawiau dros dro Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar waith, tra bod yr heddlu'n aros am ganlyniad ymgynghoriad Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gefnogi cod ymarfer ehangach. Mae polisïau mewnol cyfredol yn cael eu hadolygu. Os oes angen cyngor yn y cyfamser, mae'r gefnogaeth ganlynol

ar gael drwy'r hwb llesiant, rhwydwaith cefnogi staff, Unsain, y Ffederasiwn, Cymdeithas yr Uwch-arolygwyr, swyddogion Adnoddau Dynol a thîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg o fewn yr heddlu.

Mae grŵp cymorth hefyd wedi'i sefydlu gan Rwydwaith Heddlu LHDT+ Cymru yn benodol ar gyfer cydweithwyr traws, anneuaidd, ac amrywiol o ran rhywedd.

Rydym wedi atgoffa staff a swyddogion sut i roi gwybod am unrhyw bryderon yn y gweithle, neu sut i gyflwyno cwyn mewn perthynas â phynciau sy'n gysylltiedig â heriau cyfreithiol diweddar sy'n effeithio ar gydweithwyr traws, anneuaidd, ac amrywiol o ran rhywedd.

Mae swyddogion cyswllt LHDT+ wedi'u sefydlu ar draws Heddlu Dyfed-Powys. Yn debyg i rolau swyddogion cyswllt eraill, maent yn derbyn mewnbynnau arbenigol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a chreu ymwybyddiaeth o faterion LHDTC+. Mae swyddogion cyswllt LHDT+ yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cymunedau ac unigolion LHDT+, i feithrin cysylltiadau i gynyddu ymddiriedaeth, hyder ac annog adrodd am droseddau.

Cyn achos y brenin (ar gais) Lindsey Smith yn erbyn Prif Gwnstabl Heddlu Northumbria [2025], mynychodd cynrychiolwyr o Rwydwaith Cymorth LHDT+ Heddlu Dyfed-Powys ddigwyddiad Pride Cymru, a gwnaed rhodd o £1,000 gan Heddlu Dyfed-Powys (fel rhan o gyfraniad ehangach gan bob un o bedwar heddlu Cymru). Er bod yr heddlu'n cydnabod bod y dyfarniad yn benodol i bresenoldeb Northumbria mewn digwyddiad Pride yn 2024, mae trafodaethau cenedlaethol wedi troi at ystyried digwyddiadau eraill a allai gynnwys ymgyrchu/gorymdeithiau/a ystyrir yn wleidyddol. Ers dyfarniad yr Uchel Lys, mae'r heddlu yn ymwybodol o heddluoedd eraill sydd wedi derbyn bygythiad o her gyfreithiol. Mae'r heddlu yn adolygu beth mae hyn yn ei olygu i Ddyfed-Powys mewn perthynas â mynychu digwyddiadau Pride.

Hyfforddiant i swyddogion newydd – mae'r tîm dysgu a datblygu wedi bod yn adolygu deunydd hyfforddi yn barhaus sy'n ymwneud â'r achos cyfreithiol diweddar i sicrhau bod gwybodaeth yn gywir yn gyfreithiol, gan barhau i hyrwyddo diwylliant sy'n gynhwysol a chefnogol gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig ac sy'n gwrthwynebu ymddygiad hiliol, casineb at fenywod neu ymddygiad homoffobig.

Y ddalfa – Mae canllawiau dros dro gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi'u dosbarthu i wasanaethau'r ddalfa i sicrhau bod staff yn y ddalfa yn deall y prosesau presennol, ac hefyd yn ystyried diwylliant o gynhwysiant, parch a thegwch. Mae cynrychiolwyr rhwydwaith cymorth staff wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod yr wybodaeth yn barchus ac yn dosturiol i swyddogion ac unigolion sy'n mynd i'r ddalfa. Mae'r heddlu'n aros am ganllawiau cenedlaethol sydd ar fin dod a bydd yn gweithio gyda'r rhwydwaith cymorth staff i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu dosbarthu, ac a oes agweddau lleol y bydd angen i Heddlu Dyfed-Powys eu hystyried neu feddwl am yr adnoddau sydd eu hangen. Mae'r Prif Arolygydd Jenna Jones o wasanaethau'r ddalfa wedi dod yn uwch-gynghreiriad i'r rhwydwaith.

Ap ymgysylltu cymunedol newydd – wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer timau plismona ac atal bro, mae Cyswllt Dyfed-Powys yn system negeseuon dwyffordd sy'n rhad ac am ddim. Mae rhan o'r ap hwn yn cynnwys swyddogaeth o'r enw *Origins*, sef swyddogaeth lle gelir adnabod grwpiau lleiafrifol ar gyfer gwell ymgysylltiad. Bydd y rhai sydd wedi cofrestru yn gallu ymateb i rybuddion; rhannu gwybodaeth a chodi pryderon. Ar ôl cofrestru, gall defnyddwyr ddewis yn union beth maen nhw am gael gwybod amdano, newyddion lleol, blaenoriaethau plismona lleol, digwyddiadau cymunedol, cyngor atal troseddu a mwy.

Mae'r heddlu'n parhau i hysbysebu cyfleoedd i'w cymunedau ymuno â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

## 5. I'w nodi

### a) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl

Rhoddwyd adroddiad ar yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd, gan y Prif Gwnstabl, ynghylch digwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod blaenorol. Mae'r adroddiad yn cynnwys y diweddaraf ar waith heddlu da gan gynnwys Prosiect Vigilant gyntaf a gynhaliwyd yng Ngharnifal Rhaeadr Gwy ac Ymgyrch Apex a Bailey dros y penwythnos cyn Sioe Frenhinol Cymru yn ogystal â diweddariadau gweithredol a sefydliadol sylweddol.

### b) Diweddariad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ar ei weithgareddau a chyfarfodydd a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys diwrnod ymgysylltu cymunedol yng Ngheredigion, cyfarfod â chynrychiolwyr o NFU Cymru a phresenoldeb yn Sioe Sir Benfro.

### c) Y newyddion diweddaraf am fodel gweithredu'r heddlu

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Cyfrifol am Adolygiad yr Heddlu, Gareth Scanlon, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar fodel gweithredu'r heddlu.

O ran yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen cymysgedd gweithlu, mae gwaith yn parhau i gyflawni uchelgais y sefydliad i recriwtio 50 o staff heddlu cyfwerth ag amser llawn er mwyn caniatáu i 50 o swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn gael eu rhyddhau o 'swyddogaethau cefn swyddfa' i blismona rheng flaen. Mae dwy ffrwd ariannu yn cefnogi'r fenter hon:

- Gwarant Plismona Bro: 33 swyddog heddlu cyfwerth ag amser llawn i dimau plismona ac atal bro
- Cyllid Praesept: 17 swyddog heddlu cyfwerth ag amser llawn i dimau ymateb yr heddlu mewn lifrai

Ar hyn o bryd, mae 25 o staff cyfwerth ag amser llawn wedi'u recriwtio, mae 15 cyfwerth ag amser llawn ar y gweill ac mae 18 cyfwerth ag amser llawn wedi'u

cynllunio ar gyfer y dyfodol agos. Mae pob hysbyseb recriwtio newydd i staff yr heddlu wedi ei hategu gan ymgyrch cyfryngau cymdeithasol wedi'i thargedu yn yr ardaloedd gofynnol. Bydd proses mynegiant o ddiddordeb yn agor yn fuan i recriwtio 33 o swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn i'r timau plismona ac atal bro gyda'r ymgeiswyr hynny o feysydd busnes sy'n agored i gymysgedd y gweithlu yn cael blaenoriaeth.

Y prif her a wynebir yw canlyniad prosesau recriwtio, a'r cyflymder angenrheidiol ar gyfer y prosesau recriwtio, er mwyn bodloni amserlenni grantiau. Mae hyn yn cael ei waethygu gan bwysau capasiti, a/neu amseroedd rhagarweiniol prosesau, mewn meysydd sy'n cefnogi recriwtio, er enghraifft (nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr):

- Amseroedd rhagarweiniol/prosesu cyn penodi, fetio a gwiriad meddygol
- Ail flaenoriaethu a chyflwyno hyfforddiant cyflym i staff yr heddlu sydd newydd eu recriwtio
- Diddordeb (a llwyddiant) mawr gan staff presennol yr heddlu (yn aml o swyddogaethau hollbwysig eraill) ar gyfer rolau cymysgedd gweithlu staff yr heddlu sydd newydd eu hysbysebu yn unol â'r Gwarant Plismona Bro. Mae hyn yn gwaethygu'r heriau recriwtio oherwydd yr angen am ragor o recriwtio a chyfnodau hyfforddi i lenwi'r bylchau a adawyd gan ymgeiswyr mewnol llwyddiannus.

Mae'r heddlu wedi gwneud ymdrechion sylweddol i gryfhau a blaenoriaethu adnoddau ar gyfer meysydd busnes sy'n cefnogi gwireddu Gwarant Plismona Bro.

Mae wedi dod yn hynod heriol gwireddu'r cynnydd yn nifer y cwnstabliaid a rhingylliaid yr heddlu sy'n angenrheidiol i ehangu'r timau plismona ac atal bro ac i feithrin y strwythurau gweithredol newydd y cytunwyd arnynt heb effeithio ar strwythurau timau ymateb yr heddlu mewn lifrai. Darparwyd trosolwg i'r bwrdd ar y tair ffrwd waith newydd, sef gwasanaeth ymateb yr heddlu mewn lifrai, cydlynu data pobl a'r dull o reoli perfformiad a salwch.

## 6. Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data

Darparwyd papur diweddaru i'r bwrdd ynghylch Microsoft List ar gyfer rheoli asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data gan y Prif Arolygydd Delyth Evans.

- 30 Mehefin - cynhaliwyd gweithdy gydag ymarferwyr allweddol i adolygu Microsoft List Glannau Mersi ac asesu ei haddasrwydd i'w defnyddio gan Heddlu Dyfed-Powys. Cytunodd pawb ei fod yn addas, gyda rhai newidiadau angen eu gwneud i gyfeiriadau lleol.
- 3 Gorffennaf - caniataodd Glannau Mersi i'r heddlu ymuno â'u Microsoft List.

- 4 Gorffennaf – cwestiynau sgrinio wedi'u hanfon at TGCh. TGCh i osod Microsoft Form i lenwi Microsoft List.
- 6 Awst – gofynnwyd am amserlen gan TGCh.
- 7 Awst – drafft cyntaf y ffurflen wedi'i dderbyn gan TGCh yn barod i'w phrofi.
-

Ar hyn o bryd mae'r ffurflen yn cael ei phrofi gyda gwaith yn parhau rhwng maes busnes rheoli gwybodaeth a TGCh. Y nod yw cwblhau'r profion erbyn diwedd mis Awst. Amserlen ar gyfer cwblhau:

- 9 Medi – cyfarfod â Debby Jones i arddangos y rhestr newydd, sy'n cynnwys asesiad risg a phroses gymeradwyo newydd. Mae hyn angen cymeradwyaeth gan ei fod yn newid i weithdrefn/canllawiau presennol.
- 11 Medi – trafodaethau'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth cyn i'r cynllunio fynd yn fyw (os caiff ei gymeradwyo.) Adroddiad i'w gyflwyno ynghylch opsiynau ar gyfer cofnodion etifeddol/ôl-weithredol.

**Camau gweithredu: - Aelod o staff o SCHTh i fynychu'r cyfarfod blaenoriaethu asesiad o'r effaith ar ddiogelu data misol a gynhelir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl**

## ch) Cylch cynllunio strategol a sicrwydd

Nodwyd yr adroddiad ynghylch y cylch cynllunio strategol a sicrwydd gan y bwrdd. Mae'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod gofynion a blaenoriaethau strategol yr heddlu yn cyd-fynd yn gyffredinol ac mae'n gylch parhaus o dystiolaeth a gwybodaeth. Dechreuodd blwyddyn ariannol lawn gyntaf y cylch cynllunio strategol a sicrwydd ym mis Ebrill 2025. Mae arweinwyr wedi cael eu hannog drwy gydol y broses i gymryd perchnogaeth o gynlluniau eu hadrannau a'u datblygu ymhellach i gefnogi eu busnes o ddydd i ddydd. Mae cyfarfodydd wedi digwydd rhwng arweinwyr a rheolwr y cylch cynllunio a sicrwydd i gynorthwyo gyda'r newidiadau a darparu cefnogaeth.

I baratoi ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol (Ebrill), mae pob pennaeth adran/arweinydd maes busnes yn diweddaru eu cynlluniau cyflawni, gan sicrhau bod blaenoriaethau ar waith i gynnwys heriau, technoleg ac arloesedd, arbedion ac effeithlonrwydd, a gweithlu a llesiant.

Mae cynlluniau cyflawni adrannol hefyd yn cynnwys cofrestrau risg yr adrannau, polisiau, unrhyw feysydd i'w gwella a'r camau sy'n cael eu cymryd o argymhellion Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ac archwilio mewnol, a'r ffurflen gofynion sefydliadol a ddefnyddir i ddatblygu datganiad rheoli'r heddlu bob blwyddyn.

Cynhelir cam coladu data proses datganiad rheoli'r heddlu o fewn pob cynllun cyflawni hefyd, a chwblhawyd y ffurflenni gofynnol gan yr arweinwyr ym mis Mehefin/Gorffennaf, gydag asesiad cychwynnol (ar ffurf nodi statws coch, melyn a gwyrdd) a'r cymedroli wedi digwydd ym mis Gorffennaf/Awst.

O fewn y cylch cynllunio strategol a sicrwydd, cynhelir tri digwyddiad penaethiaid adran/cynllunio adrannol ac uwch-arweinwyr ym misoedd Mawrth, Gorffennaf a Thachwedd bob blwyddyn lle mae arweinwyr yn cyflwyno eu heriau, cynlluniau i greu arbedion ac unrhyw gynigion buddsoddi i brif swyddogion. Defnyddir yr wybodaeth hon i flaenoriaethu penderfyniadau buddsoddi ac adnoddau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bydd y cylch cynllunio strategol a sicrwydd yn parhau i gydlynu gweithgaredd cynllunio busnes allweddol yn ystod y chwe mis nesaf. Mae mis Medi yn fis arwyddocaol, gan fod pob pennaeth adran/arweinydd yn cyflwyno i'r Grŵp Prif Swyddogion, gan ddefnyddio eu cynlluniau i amlinellu gwybodaeth allweddol gan gynnwys cynigion ar gyfer twf, technoleg ac arloesedd, asedau, cynhyrchu incwm ac ailstrwythuro adrannau (paneli trafod).

Bydd sesiwn Grŵp Prif Swyddogion ym mis Hydref yn dilyn hyn i asesu a phenderfynu mewn egwyddor pa newidiadau y dylid eu hystyried ymhellach fel rhan o benderfyniadau blaenoriaethu/cyllidebol eleni.

Yn ogystal ag ystyried gallu'r heddluoedd i fodloni'r galw, bydd y sesiwn flaenoriaethu hefyd yn ystyried sawl paramedr allweddol arall gan gynnwys barn ein cymuned, ein gweithlu (gan ddefnyddio adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu a disgwyliadau), effaith enw da/sefydliadol, proffiliau gwerth am arian a rhwymedigaethau rheoleiddiol/statudol.

Bydd diwrnod cwrdd i ffwrdd yr hydref ym mis Tachwedd yn gyfle arall i ddod ag arweinwyr ynghyd i atgyfnerthu negeseuon allweddol ynghylch disgwyliadau a gofynion y cylch cynllunio strategol a sicrwydd, tra bydd ffocws y diwrnod ar adborth gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ar ein Datganiad Rheoli'r Heddlu 2024, canlyniadau paneli trafod a phenderfyniadau blaenoriaethu cychwynnol a'r themâu allweddol o ddigwyddiadau ymgysylltu a disgwyliadau adrannol (a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Awst). Bydd Arweinydd Cyswllt Heddlu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ac arweinydd chwarter 1 hefyd yn bresennol fel rhan o'r camau paratoadol ar gyfer arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu yn 2026.

Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus o fewn cynlluniau adrannau yn cael eu hadolygu gyda rhai yn deillio'n uniongyrchol o'r canlyniadau blaenoriaethu. Bydd amserlen ar gyfer y gwaith hwn yn cael ei sefydlu yn barod i'w gyflawni yn ystod cyfnod cylch cynllunio strategol a sicrwydd 2026/27.

Bydd yr uned gwella gwasanaethau yn parhau â'r gwaith ar ddatganiad rheoli'r heddlu. Bydd yn llunio drafft o ran 2 ac yn cysylltu ag arweinwyr i lenwi unrhyw fylchau yn yr wybodaeth a fydd yn effeithio ar gwblhau camau 1 i 3 o'r fethodoleg pedwar cham a ddarparwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi. Bydd cam 4 yn cael ei ddatblygu ar ôl gwneud penderfyniadau

cynllunio busnes a chanlyniadau ariannol (setliad y llywodraeth, cynnig a phenderfyniad ar y praesept).

Gyda chefnogaeth rolau ac adrannau allweddol, bydd cynnwys yr holl gynlluniau'n cael ei wella wrth i'r heddlu geisio sicrhau bod gan bawb fframwaith perfformiad, strwythur llywodraethu a chynllun gweithlu/hyfforddiant sefydledig.

Mae cyfathrebu â'r holl staff ynghylch y cylch cynllunio strategol a sicrwydd yn allweddol ac i hwyluso hyn, bydd tudalennau'r fewnrwyd yn cael eu datblygu, gan ddarparu gwybodaeth am y cylch cynllunio strategol a sicrwydd, beth mae arweinwyr yn ei wneud yn eu rolau ac yn bwysicaf oll, sut y gall pawb gyfrannu at y broses.

Mae proses y cylch cynllunio strategol a sicrwydd newydd yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth ar gyfer yr adrodd cynhyrchiant ac effeithlonrwydd newydd a fydd yn cael ei gynhyrchu gan bob heddlu yn y dyfodol.

Mae cynnwys yr adroddiad yn cyd-fynd â'r Adolygiad Cynhyrchiant Plismona a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023 ac adroddiad argymhellion y Swyddfa Gartref a'i dilynodd ym mis Ebrill 2024, gan dynnu sylw at arbedion posibl o welliannau cynhyrchiant a gosod targedau heriol i bob heddlu fodloni gofynion.

Cyflwynir manylion y gofynion a'r esboniadau yn seminar Datganiad o Gyfrifon y Cyd-bwyllgor Archwilio a gynhelir ar 24 Medi. Mae'r adroddiad ar y gweill ar hyn o bryd ac yn debygol o gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2025 i gyd-fynd â gofynion adrodd ariannol.

### d) Canllaw Safonau Proffesiynol

Nodwyd y memo a ddarparwyd i'r bwrdd mewn perthynas â'r Canllaw Safonau Proffesiynol gan y bwrdd.

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol wedi cynhyrchu'r ddogfen fel rhan o'r llinyn ATAL i swyddogion a staff ei defnyddio fel canllaw i atgyfnerthu'r safonau a ddisgwylir ganddynt. Er nad yw'r canllaw yn darparu ar gyfer pob sefyllfa, mae'n rhoi rhywfaint o gyfarwyddyd clir ar sut olwg sydd ar blismona da a hyrwyddo ymddygiad proffesiynol. Mae'r canllaw yn glir ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol mewn rhai meysydd, ac mae hyn wedi'i bennu yn dilyn ymchwilio i sawl enghraifft gan yr Adran Safonau Proffesiynol.

Nod y canllaw hwn yw'r canlynol

- Egluro disgwyliadau – cyfleu gwerthoedd y sefydliad ac atgyfnerthu safonau ymddygiad a'r Cod Moeseg.
- Diogelu unigolion a sefydliadau – atal camymddwyn drwy adnabod ac ymyrryd yn gynnar a hyrwyddo prosesau atgyfeirio i adrodd am ymddygiad amhriodol.

- Cefnogi cysondeb – pan fydd safonau wedi'u gosod a'u deall yn glir, gellir cymhwyso penderfyniadau'n deg ac yn gyson.

Bydd y canllaw hwn yn rhan o Strategaeth ATAL yr Adran Safonau Proffesiynol i gefnogi'r canlynol:

- Diwylliant gwaith iach a chadarnhaol.
- Cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar.
- Nodi themâu/patrymau ymddygiad ymhlith timau/adrannau.
- Codi ymwybyddiaeth ac addysg ymhlith gweithwyr.

Cyflwynir cynnig drwy'r broses cylch cynllunio strategol a sicrwydd ar gyfer swyddog ATAL pwrpasol a all fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr y ffederasiwn ac Unsain ac maent yn cefnogi lledaenu'r ddogfen i staff ac mae copi hefyd wedi'i rannu â SCHTh.

Mae strategaeth gyfathrebu wedi'i datblygu gyda'r Adran Cyfathrebu Corfforaethol i gefnogi'r cyflwyniad.

Mae Adran Safonau Proffesiynol yn darparu mewnbwn i bob newydd-ddyfodiad a throsglwyddai, a bydd y canllaw yn cael ei ddarparu ar ffurf electronig i'r holl newydd-ddyfodiaid o fewn y sefydliad. Yn ogystal, bydd copïau electronig o'r canllaw hwn hefyd yn cael eu darparu i bob rhingyll/arolygwyr sydd newydd eu dyrchafu a rolau cyfatebol staff yr heddlu.

## dd) Diweddariad yr Adran Cyfiawnder Troseddol

Nodwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr adran Cyfiawnder Troseddol ynghylch y prosiect adeiladu ffeiliau, cynllun peilot cyhuddo troseddwyr cam-drin domestig yr heddlu, ac ail-lansio rhwydwaith yr hyrwyddwyr datgelu gan y bwrdd.

Nod y prosiect adeiladu ffeiliau yw defnyddio'r Uned Dilyniant Achosion o fewn Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ymgymryd ag elfennau allweddol o'r broses adeiladu ffeiliau.  Bydd hyn yn cynnwys cwblhau'r amserlen datgelu, golygu gwybodaeth sensitif ac unrhyw gamau gweithredu addas eraill. Mae dadansoddiad o'r model gweithredu presennol yn nodi'n glir bod cyfran uchel o ffeiliau a gyflwynir gan swyddogion yn cael eu dychwelyd oherwydd gwallau datgelu, gwallau golygu neu heb eu cyflwyno gydag argraffiadau o gofnodion neu ddata Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

Rhagwelir y bydd y prosiect adeiladu ffeiliau yn arwain at ostyngiad o 51% yn nifer y camau gweithredu mewnol sy'n cael eu dychwelyd i swyddogion. Mae'r prosiect i fod i gael ei lansio ar 23 Medi 2025 – cam 1 (pob achos cam-drin domestig) a bydd dyddiad lansio ar gyfer cam 2 – pob math o ffeiliau (ac eithrio adran ymchwilio i droseddau) yn gynnar yn 2026.

Mae'r heddlu'n gweithio mewn cydweithrediad â Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, y Swyddfa Gartref a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gynllun

peilot awdurdodi cyhuddo, sy'n anelu at ddychwelyd penderfyniadau awdurdodi cyhuddo mewn achosion cam-drin domestig yn ôl i'r heddlu.
Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn un o chwe heddlu'r cynllun peilot – y heddluoedd eraill yw – Gwent, De Cymru, Gogledd Cymru, Swydd Gaer a Glannau Mersi.

Mae'r fenter yn rhan o ymdrech ehangach i symleiddio'r broses gyhuddo, lleihau oedi a gwella canlyniadau i ddioddefwyr – yn benodol, achosion cam-drin domestig. Gosodwyd y dyddiad lansio ar gyfer 23 Medi 2025.

Nod y prosiect:

- Mesurau diogelu ar unwaith
- Mynediad cyflymach at orchmynion amddiffynnol
- Cyfradd gadael is ar gyfer dioddefwyr
- Tarfu ar gylchoedd ymddygiad camdriniol
- Mwy o ymddiriedaeth a hyder yn y system gyfiawnder

I gyd-fynd â lansio'r prosiect adeiladu ffeiliau a chynllun peilot cyhuddo troseddwyr cam-drin domestig – mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio i ail-lansio ac ail-egnïo rhwydwaith yr hyrwyddwyr datgelu. Mae hyrwyddwyr newydd wedi cael eu nodi o groestoriad o'r holl adrannau plismona/unedau rheoli sylfaenol a dyddiad lansio wedi'i osod ar gyfer mis Medi 2025.

### e) Ymgysylltu â'r gymuned

Darparwyd papur diweddaru i'r bwrdd gan yr Uwch-arolygydd Neve ynghylch sut mae ymgysylltu â'r gymuned yn cael ei ymdrin ar hyn o bryd yn yr heddlu a'r camau nesaf i'w hystyried gan y bwrdd.

**Camau gweithredu: - Bydd yr Uwch-arolygydd Neve yn rhoi sesiwn friffio i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynghylch ymgysylltu â'r gymuned yn dilyn lansio'r ap ymgysylltu â'r gymuned yn yr heddlu.**

## 7. Unrhyw fater arall

### a) Gweithgor Treftadaeth

Nodwyd y memo a ddarparwyd i'r bwrdd mewn perthynas â Gweithgor Treftadaeth yr heddlu gan y bwrdd.

O dan gyfarwyddyd y Prif Gwnstabl Dros Dro, crëwyd y Gweithgor Treftadaeth i sicrhau dull cydlynol o gydnabod a chysylltu'r heddlu â'i hanes trwy arteffactau, dogfennau, cryfhau llesiant swyddogion a staff a chydnabod gwasanaeth ac aberth, a diogelu etifeddiaeth yr heddlu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cyfarfod cyntaf y gweithgor wedi'i drefnu ar gyfer 10 Medi a bydd yn cael ei arwain gan y Prif Uwch-arolygydd Dros Dro Mann.

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 8 Medi 2025 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| **PB 089** | Yr heddlu i rannu'r polisi ymddeol hyblyg â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. | Yr heddlu |
| **PB 090** | Dylid ystyried presenoldeb Arweinydd Cyswllt Heddlu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn y seminar ariannol a drefnwyd ar gyfer Tachwedd 2025. | SCHTh |
| **PB 091** | Cynrychiolydd o SCHTh i fynychu cyfarfod estynedig misol y Grŵp Prif Swyddogion i drafod arolygiad effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF sydd ar ddod. | SCHTh |
| **PB 092** | Aelod o staff o SCHTh i fynychu'r cyfarfod blaenoriaethu asesiad o'r effaith ar ddiogelu data misol a gynhelir gan y Dirprwy Brif Gwnstabl | SCHTh |
| **PB 093** | Bydd yr Uwch-arolygydd Neve yn rhoi sesiwn friffio i'r CHTh ynghylch ymgysylltu â'r gymuned yn dilyn lansio'r ap ymgysylltu â'r gymuned yn yr heddlu. | Yr heddlu |

DIWEDD